

Egwyddorion

Mae'r Brifysgol yn credu y dylai pob aelod o staff sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio, neu sydd wedi cael profiadau o'r fath yn y gorffennol, allu datgelu ymddygiad(au) o'r fath wrth eu cyflogwr. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ymdrin ag unrhyw ddatgeliad o'r fath mewn modd cefnogol ac, os oes modd, yn gyfrinachol.

Mae'r Polisi hwn yn cynnig ffordd ddiogel i aelodau o staff ddatgelu camdriniaeth, a'i nod hefyd yw cynorthwyo'r sawl sy'n pryderu y gallai cyd-weithiwr neu un o'u cymheiriaid fod yn cael eu cam-drin. Mae hefyd yn cynnig fframwaith fel y gall y sawl y datgelir camdriniaeth wrthynt ymateb yn briodol.

Mae'r Polisi hwn yr un mor berthnasol i gam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio sy'n digwydd ar hyn o bryd (ac sy'n parhau) ag i achosion sydd wedi digwydd yn y gorffennol ac sy'n effeithio ar allu unigolyn i weithio.

Cwmpas

Mae'r Polisi hwn yn amlinellu'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n dioddef a'r rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig, trais rhywiol a stelcio, yn unol â'r diffiniadau a amlinellir yn [Atodiad 1](#). Mae'n cynnig arweiniad i unrhyw aelod o staff sy'n pryderu bod cyd-weithiwr yn dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio, boed yna dystiolaeth amlwg bod gweithredoedd o'r fath yn digwydd ai peidio.

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff a gallai fod yn berthnasol hefyd i rai sy'n ymweld â safle'r Brifysgol megis staff asiantaeth. Dylai staff mewn sefydliadau partner, yn ogystal ag ymwelwyr a chontractwyr, gysylltu â'u sefydliadau eu hunain yn y lle cyntaf fel arfer, ond mae croeso iddynt gysylltu â'r Brifysgol am gymorth a chynghor trwy gyfrwng y Polisi hwn.

Deddfwriaeth

Mae'r Brifysgol yn rhoi ystyriaeth o ddifrif i'r angen i greu a chynnal amgylchedd diogel lle gall aelodau o staff gyflawni eu llawn botensial. Yn y cyd-destun hwn, ceir nifer o fentrau sylfaenol a chefnogol ym maes diogelu aelodau o staff a allai fod mewn perygl o niwed, mabwysiadu agwedd drugarog tuag at faterion cymdeithasol a domestig, a chredoau ynghylch y cysyniadau o les a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei dyletswydd dan [Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith \(1974\)](#) i sicrhau iechyd, diogelwch a lles aelodau o staff yn y gwaith, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Ymhellach

at hynny, mae'r Brifysgol yn cydnabod y cyfrifoldebau a amlygir dan [Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith \(1992\)](#), sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr asesu'r risg o drais yn erbyn aelodau o staff a gwneud trefniadau ar gyfer eu hiechyd a'u diogelwch.

Ceir gwybodaeth am ddeddfwriaeth a rheoliadau eraill yn [Atodiad 3](#).

Nodau

Mae'r Brifysgol wedi datblygu'r polisi hwn yn rhan o'i hymrwymiad i gefnogi iechyd, diogelwch a lles ei staff yn y gwaith. Mae cam-drin domestig yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd person, gan gynnwys eu dysgu, eu gwydnwch yn fwy eang, eu lles a'u hiechyd meddwl.

Mae'r Brifysgol felly wedi ymrwymo i hyrwyddo polisi o beidio ag arddangos dim goddefgarwch o gam-drin domestig yn erbyn a chan ei holl weithlu, gan gydnabod y pethau canlynol ynghylch cam-drin domestig:

- Mae'n drosedd, yn aflonyddol ac yn niweidiol yn gymdeithasol;
- Mae'n gallu effeithio ar iechyd unigolyn, ei berfformiad neu ei bresenoldeb yn y gwaith;
- Nid yw'n gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, oed, anabledd, ethnigrwydd, crefydd, statws priodasol na chyfeiriadedd rhywiol.

Datgelu

Gall datgelu camdriniaeth, boed yn digwydd ar hyn o bryd neu yn y gorffennol, fod yn benderfyniad anodd ac mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn bwysig i'r unigolyn allu rheoli'r penderfyniad hwnnw. Mae'r Polisi hwn, felly, yn rhoi gwybodaeth am gefnogaeth fewnol yn ogystal â sefydliadau annibynnol arbenigol y gellir datgelu camdriniaeth wrthynt (gweler [Atodiad 2](#)).

Ymhellach at hynny, mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai anawsterau godi os na thynnir sylw'r Brifysgol yn ffurfiol at brofiadau o gam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio. Gall anawsterau o'r fath gynnwys materion iechyd a diogelwch, pryderon aelodau o staff, neu gŵynion neu gamau gweithredu yn sgil materion yn ymwneud â pherfformiad.

Cyngor i aelodau o staff

Os ydych chi'n dioddef cam-drin domestig mae'n bwysig **dweud wrth rywun**, a cheir rhestr o fanylion cyswllt ar gyfer amrywiol asiantaethau cymorth arbennig, yn lleol a chenedlaethol, yn [Atodiad 2](#).

Fe'ch anogir hefyd i siarad â'ch rheolwr llinell os ydych chi'n bryderus ynghylch cam-drin domestig, neu'n dioddef yn ei sgil. Ni fydd rheolwyr llinell yn gofyn ichi am dystiolaeth nac yn rhoi pwysau arnoch i roi manylion. Ni fyddant yn feirniadol, byddant yn eich cymryd o ddifrif a byddant yn treulio amser yn gwranddo arnoch.

Gall aelodau o staff sydd eisiau datgelu neu drafod eu profiad o gam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio ddewis dod â chyd-weithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur gyda hwy yn gwmni i unrhyw gyfarfodydd i drafod y mater.

Os byddai'n well gennych, gallech hefyd siarad â chyd-weithiwr neu eich Partner Busnes AD, a fydd, lle bo'n briodol, yn gallu trefnu atgyfeiriad at y tîm lechyd Galwedigaethol yn ogystal â'ch cyfeirio at sefydliadau cymorth allanol. Efallai hefyd y bydd o ddefnydd ichi gysylltu'n uniongyrchol â'r Rhaglen Cymorth i Staff.

Yr Iaith Gymraeg - Hawliau Staff

Yn unol â'r [Safonau Iaith a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018](#) mae gan aelodau o staff yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg i:-

- (a) wneud cwyn
- (b) ymateb i gŵyn neu honiad, ac mae gan aelodau o staff hefyd yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd lle maent yn destun
- (c) cwynion a honiadau (neu lle mai hwy sydd wedi gwneud y gŵyn)
- (d) achosion disgyblu

Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod pan na ellir cynnal y cyfarfod yn uniaith Gymraeg. Mae'r Brifysgol, mewn cydweithrediad â'i hundebau llafur cydnabyddedig, wedi ymgorffori'r gofynion uchod yn ei holl ddogfennau polisi a gweithdrefn perthnasol ym maes Adnoddau Dynol.

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Rheolwyr

Disgwylir i'r holl reolwyr ymgyswrtu â'r Polisi hwn a'r modd y caiff ei ddefnyddio. Mae'n bosibl mai rheolwr fydd y person cyntaf y bydd aelod o staff yn dweud wrthynt, a bydd crybwyll y mater hwn wedi gofyn am gryn dipyn o ddewrder. Gall yr ymateb y mae'r aelod o staff yn ei gael gan ei reolwr fod yn ffactor holl bwysig wrth bennu a ydynt yn gofyn am ragor o gyngor a chymorth ai peidio. Felly, dylai [rheolwyr sicrhau eu](#) bod yn cynnig cymorth mewn modd sensitif, heb feirniadu.

Yr agwedd bwysicaf ar sgwrs ynghylch cam-drin domestig yw annog yr aelod o staff i ofyn am gymorth. Dylech nodi dyddiad ac amser y sgwrs ac unrhyw wybodaeth bwysig arall a allai fod yn berthnasol, ond dylech sicrhau bod gennych gydsyniad ffurfiol yr aelod o staff os ydynt yn gofyn ichi gysylltu ag asiantaeth gymorth ar eu rhan. Sicrhewch fod y sgwrs yn cael ei chynnal mewn man tawel a chyfrinachol.

Ni ddylai'r aelod o staff deimlo bod pwysau arnynt i ddatgelu gwybodaeth bersonol y maent yn teimlo'n anghysurus yn ei rhannu, yn enwedig gan ei bod yn bosibl y bydd arnynt angen rhywfaint o amser i benderfynu beth i'w wneud. Dylech hefyd annog y person sy'n datgelu i wneud eu dewisiadau eu hunain ynghylch a ddylent gysylltu ag unrhyw wasanaeth neu gael eu hatgyfeirio.

Dylai unrhyw wybodaeth a ddatgelir i wasanaeth trwy gyfrwng atgyfeiriad fod â chydsyniad y person sy'n ei datgelu a dylai fod ar sail 'angen gwybod' oni bai y ceir [ystyriaethau diogelu](#)

Dylech wrando'n ofalus, dangos empathi a bod yn greadigol wrth archwilio dewisiadau gyda'r aelod o staff, yn enwedig pan fo angen iddynt drefnu apwyntiadau â chyfreithwyr neu asiantaethau ailgartrefu, addysg neu ofal plant yn ystod y diwrnod gwaith arferol. Dyma enghreifftiau o fathau eraill o gefnogaeth a allai fod yn addas:

1. Sgrinio negeseuon e-bost, post, negeseuon testun neu alwadau ffôn;
2. Addasiadau dros dro i oriau gwaith;
3. Newid lleoliad gwaith dros dro;
4. Mynediad i le parcio diogel ar y safle, os nad yw hyn yn cael ei ddarparu eisoes.

Cynigir hyd at bum diwrnod o absenoldeb â thâl i aelodau o staff fynd i wrandawiadau llys sifil neu droseddol fel tyst, neu os oes angen iddynt fynd i'r llys er mwyn cael gwaharddeb yn erbyn rhywun sy'n cyflawni cam-drin domestig neu yr honnir ei fod yn gwneud hynny.

Dyma eich swyddogaeth chi, fel rheolwr:-

- Gwrando yn gyntaf, yn hytrach na rhoi cyngor ac arweiniad penodol yn rhy gynnar yn y sgwrs;
- Cyfeirio at staff sydd wedi'u hyfforddi (eiriolwyr) o fewn y Brifysgol neu ofyn am gyngor arbenigol - gan gadw cyfrinachedd (h.y. sicrhau bod yr unigolyn/unigolion dan sylw yn parhau'n ddienw) a chael cyngor yn unol â hynny;
- Cyfeirio at y Polisi hwn fel y gallant gael mynediad uniongyrchol at gyrff allanol (gweler [Atodiad 2](#));
- Cwblhau asesiad risg, mewn cydweithrediad â'r [Adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd](#), lle ceir pryderon o fewn y gweithle;

- Rhoi gwybodaeth yn ôl yr angen, ond dim ond os yw'n ddiogel gwneud hynny y dylid rhoi gwybodaeth ysgrifenedig am wasanaethau a chymorth sydd ar gael yn lleol. Peidiwch byth â rhoi gwybodaeth ysgrifenedig y gallai'r sawl sy'n cam-drin ei chanfod, a hynny wedyn yn rhoi'r dioddefwr mewn rhagor o berygl;
- Anogwch yr aelod o staff i ddarparu rhifau cyswllt a chyfeiriadau diogel fel nad yw unrhyw ohebiaeth rhyngddynt hwy a'r Brifysgol yn peryglu eu diogelwch personol;
- Dim ond os ceir pryder ynghylch perygl di-oed i'r aelod o staff, cyd-weithwyr, myfyrwyr neu i blant neu oedolion sydd mewn perygl o niwed (gweler y [Polisi Diogelu](#) am ragor o fanylion) y dylech ystyried torri cyfrinachedd. Bydd cyfrinachedd hefyd yn cael ei dorri pan fernir bod y person sy'n datgelu yn agored i niwed neu lle mae plant ynghlwm â'r sefyllfa, yn unol â'r Polisi Diogelu.

D.S. Gellir torri cyfrinachedd hefyd â chydysyniad yr aelod o staff neu lle bo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Mae'n bosibl y bydd aelodau o staff o'r farn na fydd pobl yn eu credu. Efallai y byddant wedi ceisio datgelu o'r blaen, ac na roddwyd ystyriaeth o ddifrif iddynt, neu efallai y bydd y sawl sy'n eu cam-drin wedi dweud wrthynt na chânt eu credu. Mae'n hynod o bwysig gwrando'n ofalus yn hytrach na chwilio am arwyddion uniongyrchol o gamdriniaeth, gan ei bod yn bosibl na fydd unrhyw dystiolaeth y gellir ei gweld. Nid yw pob achos o gam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio yn arwain at anafiadau corfforol.

Mae'r [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) a'r [Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu](#) wedi mynd ati ar y cyd i ddatblygu rhestr o ddeg cam gweithredu i helpu i ymdrin â cham-drin domestig yn y gweithle. Mae'r camau gweithredu yn amlygu sut y gall rheolwyr adnabod y broblem, ymateb iddi, rhoi cefnogaeth a chyfeirio unigolion at asiantaethau cymorth addas. [Gweler Atodiad 4 i gael](#) manylion.

Partneriaid Busnes AD

Gall Partneriaid Busnes AD hefyd roi cyngor a chymorth i aelodau o staff a rheolwyr ynghylch y Polisi hwn.

Gall hefyd, mewn rhai achosion, fod yn addas cynnig y dewis i siarad â chyd-weithiwr arall neu atgyfeirio i'r tîm Iechyd Galwedigaethol.

Os oes gan yr aelod o staff sy'n datgelu camdriniaeth a'r sawl yr honnir ei fod yn ei gyflawni ill dau gysylltiad â'r Brifysgol, dylid gofyn am gyngor gan y Partner Busnes AD fel y gellir cydlynu'r camau a gymerir a'r cymorth a roddir er mwyn sicrhau diogelwch a lles yr aelod o staff sy'n gwneud y datgeliad pan fydd yn y gwaith.

Os yw'r aelod o staff yn credu y gallai fod mewn perygl di-oed o ymosodiad difrifol wrth adael y gweithle, rhaid trafod y mater yn gyntaf â'r Partner Busnes AD a, lle bo angen, rhaid uwchraddio'r mater i sylw'r Prif Swyddog Diogelu Staff a'r Swyddog Adrodd Dynodedig, a fydd o bosibl yn cyfeirio'r mater at yr Heddlu.

Y Tîm Diogelwch

Os nad yw'r sawl yr honnir ei fod yn cam-drin yn aelod o staff ond ei fod yn dod i'r Brifysgol yn rhan o'r patrwm ymddygiad, dylai Rheolwyr hefyd ystyried trafod â Thîm Diogelwch y Brifysgol. Dim ond â chaniatâd penodol yr aelod o staff (y dioddefwr) ac ar ôl cael cyngor gan yr Adran AD y dylid gwneud hyn.

Cyflawnwyr Cam-drin Domestig

Os bydd aelod o staff yn datgelu ei ymddygiad camdriniol ei hun wrth reolwr neu gyd-weithiwr, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybodaeth iddynt am y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael, gan gynnwys eu cyfeirio at y tîm Iechyd Galwedigaethol neu'r Rhaglen Cymorth i Staff a chyrrff cymorth allanol priodol. (Gweler [Atodiad 2](#)).

Ymdrin â honiadau ynghylch cyflawnwyr trais neu gam-drin domestig, neu ddatgeliadau gan yr unigolion hynny

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn chwarae rhan bwysig wrth annog aelodau o staff i fynd i'r afael ag ymddygiad treisgar a chamdriniol, gan gynnwys ymddygiad o'r fath sy'n digwydd y tu hwnt i dir y Brifysgol.

Ymdrinnir â honiadau o gam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio a wneir ynghylch aelod o staff yn unol â'r Polisi hwn, mewn cydweithrediad ag unrhyw bolisi/gweithdrefn arall berthnasol (e.e. [Polisi Disgyblu'r Brifysgol](#)). Os bernir bod hynny'n briodol, mae'n bosibl hefyd y bydd y Brifysgol yn cynnwys yr Heddlu yn y mater.

Bydd y Brifysgol yn cydymffurfio'n llwyr ag unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu mewn perthynas â honiadau o gam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio a wneir ynghylch aelod o staff.

Dilynir yr egwyddorion allweddol hyn wrth ymwneud â honiadau neu ddatgeliadau:

- Ymdrinnir ag unigolion sy'n datgelu, neu sy'n destun honiad, mewn modd teg a chefnogol;
- Cynghorir unigolion i ofyn am gymorth;
- Cynhelir unrhyw ymchwiliad mewnol heb ragfarn ac yn annibynnol, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol;
- Ymchwilir i achosion cyn gyflymed â phosibl, gan osgoi unrhyw oedi diangen;
- Bydd y Brifysgol yn cydymffurfio'n llwyr ag unrhyw ymchwiliad allanol mewn perthynas â honiadau o gam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio a wneir ynghylch aelod o staff.

Mewn achosion lle mae'r sawl sydd wedi dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio a'r sawl a'i cyflawnodd ill dau'n aelodau o staff, cymerir camau di-oed i sicrhau, orau y gellir, nad yw'r ddau'n dod i gysylltiad yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y systemau'n atal datgelu gwybodaeth bersonol megis cyfeiriadau newydd. Rhaid cofnodi pob cam a gymerir yn yr asesiad risg.

Bydd agwedd y Brifysgol yn un ddifrifol iawn ynghylch unrhyw weithred gan gyflawnwr lle defnyddiodd ei swydd neu adnoddau gwaith (gan gynnwys amser) i ganfod lleoliad dioddefwr. Yn unol â hynny, gall y Brifysgol weithredu rhag blaen, gan gynnwys atal y defnydd o adnoddau ac/neu weithredu dan y [Polisi Disgyblu](#), os bernir bod angen.

Yr Hawl i Breifatrwydd

Mae'r Brifysgol yn parchu hawl ei holl aelodau o staff i breifatrwydd. Felly, er ein bod yn rhoi anogaeth gref i'r sawl sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio ddatgelu'r wybodaeth hon, nid yw'n ofynnol i unrhyw aelod o staff wneud hynny.

Anogir aelodau o staff i roi gwybod i AD mewn achosion lle mae ymchwiliad i honiadau eisoes ar droed, boed hwy'n cael eu hystyried yn ddiodeffwr neu boed honiad eu bod hwy wedi cyflawni cam-drin domestig, trais rhywiol a/neu stelcio. Nod y Brifysgol fydd ymdrin ag unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau o'r fath fesul achos unigol.

Er gwaethaf yr uchod, rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n cael ei ganfod yn euog o drosedd (gan gynnwys derbyn rhybudd neu orchymyn cymunedol neu benderfyniad arall y tu allan i'r llys) ddatgelu hyn wrth yr Adran AD (trwy thrstaff@aber.ac.uk) yn ddi-oed, a nod hyn fydd lleihau'r risg i gyd-weithwyr a chefnogi'r aelod o staff i newid eu hymddygiad.

Hyfforddiant

[Darperir Hyfforddiant Ymyrraeth Gwyliedydd](#) i staff. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar gam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio, gan gynnwys deall yr ystyriaethau a'u heffaith, ymateb i ddatgeliadau ac atgyfeirio/cyfeirio. Bydd hyfforddiant o'r fath yn orfodol i'r staff allweddol sydd wedi'u nodi, gan gynnwys aelodau o AD, y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr a Gyrfaoedd, a staff Diogelwch.

Mae rhestr o'r aelodau o staff sydd wedi cael hyfforddiant, a manylion cyswllt ar eu cyfer, ar gael ar [wefan AD](#).

Y gwaith papur ynghylch datgeliad

Dylai'r holl wybodaeth a ddatgelir gael ei chofnodi'n gywir. Bydd gwaith papur trylwyr yn helpu i greu darlun o natur a graddfa'r gamdriniaeth. Gellir rhyddhau'r wybodaeth hon i drydydd parti, gyda chaniatâd y dioddefwr, a gallai hyn gynorthwyo mewn achos cyfreithiol yn y dyfodol i sicrhau bod y dioddefwr yn cael ei erlyn ac i ddiogelu'r dioddefwr.

Mae hyn yn bwysig, hyd yn oed os nad yw'r person sy'n gwneud y datgeliad eisiau dwyn achos ar hyn o bryd. Os byddant yn newid eu meddwl yn nes ymlaen, neu os yw'r heddlu'n awyddus i erlyn heb ddioddefwr, gallai'r dystiolaeth hon fod yn holl bwysig. Gellir hefyd ei defnyddio fel tystiolaeth o amgylchiadau lliniarol.

Dylai gwaith papur ysgrifenedig fod yn ffeithiol, ond mae'n bwysig hefyd cofnodi unrhyw bryderon, a sail y pryderon hynny. Dylid anfon cofnodion at AD er mwyn iddynt eu cadw'n ddiogel yn ffeil yr aelod o staff. Gall cofnodion o'r fath gynnwys anafiadau, symptomau ac unrhyw ddatgeliad o gamdriniaeth. Mae tystiolaeth ffotograffig yn ddefnyddiol hefyd. Dylid hefyd nodi apwyntiadau a fethwyd a galwadau na chawsant eu hateb.

Diogelwch

Yn ôl arolwg gan [Universities UK](#), bydd y sawl sy'n profi sawl math o wahaniaethu - gan gynnwys pobl BAME, menywod, pobl anabl a phobl LGBT - yn wynebu mwy o rwystrau i ddiogelwch. Felly bydd angen i reolwyr ystyried gwahaniaethau diwylliannol a chymdeithasol posibl a allai olygu bod angen cymorth arbenigol ar staff, a chyfeirio penodol at gyrff allanol o'r fath (gweler [Atodiad 2](#)).

Dylid rhoi blaenoriaeth felly i ddiogelwch yr unigolyn sy'n datgelu cam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio. Dylid gofyn yn uniongyrchol i'r person sy'n datgelu a ydynt yn pryderu am eu diogelwch. Os ydynt, yna dylid dilyn y [Polisi Diogelu](#) a dylid cwblhau asesiad risg.

Dylid defnyddio'r Asesiad Risg hwn o fewn fframwaith [Polisi Diogelu'r](#) Brifysgol. Gall dweud wrth rywun eu bod yn wynebu risg uchel o niwed difrifol fod yn brofiad brawychus iddynt, a gallai clywed hynny fod yn drech na hwy. Felly mae'n bwysig bod yr asesiad risg yn cael ei gyflawni gan aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant. Mae rhagor o gyngor a chanllawiau ar gael trwy gysylltu â hse@aber.ac.uk.

D.S. Dylid nodi hefyd **na** ddylid dweud wrth bobl sy'n datgelu cam-drin domestig y dylent adael y berthynas. Ni ddylid annog rywun i adael heb gefnogaeth a heb fod ganddynt gynllun diogelwch mewn lle. Gall unigolyn baratoi cynllun diogelwch gyda chefnogaeth pobl eraill er mwyn ei greu a'i roi ar waith. Bydd cynllun

diogelwch yn aml yn cynnwys ystod o wahanol ffactorau, a phob un ohonynt wedi'i gynllunio i ddiogelu'r unigolyn, yn enwedig os ydynt yn penderfynu gadael partner.

Adolygu'r Polisi

Bydd Adnoddau Dynol yn cydlynu adolygiad o'r [Datganiad Polisi](#) hwn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac ag arferion da. Cynhelir yr adolygiad mewn cydweithrediad â'r undebau llafur cydnabyddedig a bydd unrhyw newidiadau a gynigir yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor perthnasol priodol ac i Weithrediaeth y Brifysgol.

Asesiadau Effaith

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynnwys y Cynllun Cydraddoldeb yn ei pholisïau, ei gweithdrefnau a'i dulliau gweithio. Aseswyd effaith y polisi hwn ar gydraddoldeb yn unol â'r cynllun hwn.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ymgorffori [Safonau Iaith 2018](#) yn ei pholisïau, ei gweithdrefnau a'i dulliau gweithio. Aseswyd effaith y polisi hwn ar y Gymraeg yn unol â'r safonau hyn.

Atodiad 1 - Diffiniadau

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu diffiniadau Bil Cam-drin Domestig 2019-21:

Cam-drin domestig: unrhyw achos neu batrwm o achosion o ymddygiad rheolaethol, cymhellol neu fygythiol, trais neu gam-drin rhwng rhai sy'n 16 oed neu'n hŷn ac sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid agos neu'n aelodau teulu waeth beth yw eu rhywedd neu eu cyfeiriadedd rhywiol. Gall y cam-drin gynnwys, ymhlith pethau eraill: cam-drin seicolegol yn arwain at afiechyd meddwl; mathau corfforol, rhywiol, economaidd ac emosiynol ar gamdriniaeth a all arwain at fod yn gaeth i alcohol a chyffuriau ac at ynysigrwydd cymdeithasol.

Ymddygiad rheolaethol: amrywiaeth o weithredoedd sydd wedi'u cynllunio er mwyn gwneud person yn ddarostyngedig ac/neu'n ddibynnol trwy eu hynysu oddi wrth ffynonellau cefnogaeth, camfanteisio ar eu hadnoddau a'u galluoedd er budd personol, eu hamddifadu o'r hyn sydd ei angen ar gyfer er mwyn gallu bod yn annibynnol, gwrthsefyll a dianc, a rheoli eu hymddygiad o ddydd i ddydd.

Ymddygiad cymhellol: gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, bychanu a brawychu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr.

Stelcio: cyswllt parhaus, nas dymunir gan un person â pherson arall sy'n achosi i'r dioddefwr deimlo'n ofidus neu'n ofnus. Mae'n wahanol i aflonyddu, gan y bydd gan y sawl sy'n cyflawni'r stelcio obsesiwn â'r unigolyn y mae'n ei dargedu/yr unigolion y mae'n eu targedu. Mae stelcio yn drosedd dan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau (2012).

D.S. Gall yr ymddygiad fod yn achos unigol neu'n ymddygiad dros gyfnod o amser - nid yw hynny'n gwneud gwahaniaeth.

Defnyddir y term '**cyflawnwr**' ar gyfer y sawl sy'n cyflawni (neu yr honnir ei fod yn cyflawni) unrhyw weithredoedd cam-drin domestig, trais rhywiol ac/neu stelcio fel y'u diffinnir yn y diffiniadau uchod.

Defnyddir y term '**dioddefwr**' i gyfeirio at y rheini sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig, neu sy'n profi hynny ar hyn o bryd.

Atodiad 2 - Mudiadau ac Asiantaethau Cymorth Allanol

Rhifau cyswllt defnyddiol

Yr Heddlu

- www.dyfed-powys.police.uk - Ffoniwch 101 neu 999 mewn argyfwng.

- Deddf Clare - Cynllun Datgelu Cam-drin Domestig

Y cynllun sy'n galluogi pobl i ddarganfod a oes gan eu partner, neu bartner posibl, hanes o gamdriniaeth neu drais. Mae hefyd yn galluogi pobl eraill sy'n pryderu (e.e. aelodau o'r teulu, cyfeillion, cymdogion) i wneud cais os oes ganddynt bryderon am les person arall.

Gallwch: Ffonio 101, siarad â heddwes neu fynd i swyddfa'r heddlu. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae'r cynllun yn gweithio, cliciwch ar y dolenni isod:-

Rwy'n bryderus bod fy mhartner wedi cam-drin rhywun yn y gorffennol

https://www.dyfed-powys.police.uk/media/1235/dppclaireslawvictimen_0.pdf

Rwy'n bryderus ynghylch rhywun yr wyf yn ei adnabod

https://www.dyfed-powys.police.uk/media/1234/dppclaireslawthirdpartyen_0.pdf

Ceir templedi ar gyfer cynlluniau diogelwch ar :-

<https://lrsb.org.uk/uploads/making-a-safety-plan.pdf>

<http://www.endthefear.co.uk/wp-content/uploads/2010/06/Your-Domestic-Violence-Safety-Plan.pdf?563068>

Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Domestig

Cyffredinol

- **Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru - (llinell gymorth frys 24 awr)**
Gogledd Ceredigion 01970 625585 neu ar gyfer De Ceredigion 01239 615385
Gwefan: westwalesdas.org.uk
E-bost: info@westwalesdas.org.uk

- **Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru - 0808 8010 800**

Gwasanaeth cymorth a gwybodaeth cenedlaethol am ddim i bobl yng Nghymru sydd wedi cael eu cam-drin gan rywun agos atynt yn y gorffennol, neu sy'n profi hynny ar hyn o bryd

- **Fforwm Cam-drin Domestig Ceredigion - 01545 571408**
Mae Fforwm Cam-drin Domestig Ceredigion yn grŵp o bobl sy'n gweithio i wahanol asiantaethau statudol a gwirfoddol yng Ngheredigion sy'n gweithio ag oedolion a phlant sy'n dioddef ac yn cyflawni cam-drin domestig.
- **Calan DVS Radnor – gwasanaeth sy'n cwmpasu Canolbarth Cymru - llinell gymorth 24 awr: 01597 824655**
Un o elusennau cam-drin domestig mwyaf Cymru
Gwefan: www.calandvs.org.uk/cy/
- **'[Nid Cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn](#)'** – ymgyrch i helpu pobl sydd mewn perthynas reolaethol.
- **[Gofyn am ANI](#)** – cynllun gair cod gan y Llywodraeth fel y gall dioddefwyr cam-drin domestig ofyn am gymorth ar unwaith gan eu fferyllfa.

Ceir hefyd nifer o gyrff trydydd sector yng Nghymru sy'n cefnogi unigolion sydd wedi goroesi cam-drin domestig ac/neu drais rhywiol e.e.

- Mae gwefan Dewis yn beiriant chwilio ar gyfer adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru. <https://www.dewis.cymru/>

Yn benodol i Fenywod

- **www.rightsofwomen.org.uk** - Yn rhoi cyngor cyfreithiol cyfrinachol am ddim i fenywod gan gyfreithwyr a bargyfreithwyr benywaidd arbenigol;
- **Llinell Gymorth Genedlaethol Cam-drin Domestig 0808 2000 247**
Llinell gymorth gyfrinachol am ddim gan Gymorth a Lloches i Fenywod i unrhyw un sy'n dioddef cam-drin domestig, ac mae ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.
- **Cymorth i Fenywod (Cymru): 0808 80 10 800**
Yn darparu amrywiaeth o wybodaeth a chymorth ym maes cam-drin domestig, gan gynnwys cymorth i bobl sy'n dioddef cam-drin domestig a phobl sy'n pryderu bod eraill yn dioddef.
Gwefan (Cymru): www.welshwomensaid.org.uk/cy/
- **Llinell Gymorth Byw Heb Ofn – 0800 8010 800**
Yn rhoi cymorth a chynghor am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

- Refuge www.refuge.org.uk – 0808 2000 247
- Yn cynnig llety a gwasanaethau arbenigol i fenywod a phlant sy'n dianc rhag cam-drin domestig

Yn benodol i Ddynion

- Y Prosiect Dyn – 0808 801 0321
Mae'r Prosiect Dyn yn cynnig gwasanaeth ffôn am ddim sy'n rhoi cefnogaeth a gwasanaeth cynllunio diogelwch i ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig.
- Llinell Gyngor i Ddynion - 0808 801 0327
Mae llinell gymorth y Llinell Gyngor i Ddynion yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau sydd wedi'u hanelu'n bennaf at ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig gan eu partner.
www.mensadvice.org.uk
- Respect - Llinell gymorth i ddynion sy'n dioddef cam-drin domestig: 0808 801 0327
Mudiad aelodaeth ar lefel y DU ar gyfer gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig, dioddefwyr gwrywaidd trais domestig a thrais pobl ifanc mewn perthynasau agos.
Gwefan: <http://respect.uk.net/>
- Respect - Llinell gymorth i bobl sy'n pryderu am eu hymddygiad: 0808 802 4040
Yn rhoi gwybodaeth a chynghor ymarferol ar gam-drin domestig i gyflawnwyr, pobl sy'n cael eu cam-drin, gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, a theulu a ffrindiau;
Gwefan: <http://respect.uk.net/>

Yn benodol i'r gymuned LGBT:

- Broken Rainbow - 0300 999 5428
Cymorth i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol sy'n dioddef trais domestig
- Llinell Gymorth Genedlaethol Cam-drin Domestig LGBT+ – 0800 999 5428
E-bost - help@galop.org.uk

Yn benodol i Blant

- Y Gwasanaeth Gwybodaeth Plant - 01545 574 187
Yn rhoi gwybodaeth am ofal plant a gwasanaethau plant yn eich ardal.
- Parent Line Plus - 0808 800 2222

Llinell gymorth i'r DU gyfan i unrhyw un sy'n gofalu am blant a phobl ifanc

- NSPCC - Llinell gymorth genedlaethol 0808 800 5000 Cymru 02920 267000
www.nspcc.org.uk

Yn cynnig cyngor a chymorth ar sut i gadw plant yn ddiogel rhag camdriniaeth

- Childline - 0800 1111
ChildLine yw'r llinell gymorth am ddim i blant a phobl ifanc yn y DU. Gall plant a phobl ifanc ein ffonio i siarad am unrhyw broblem.
- Reunite - 01162 556 234 (Llinell gyngor)
Elusen sy'n arbenigo mewn achosion o blant yn cael eu herwydio gan rieni yn rhyngwladol. Yn rhoi cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i rieni, aelodau o'r teulu a gwarcheidwaid sydd wedi dioddef yn sgil plentyn yn cael ei herwydio, neu sy'n bryderus y bydd hynny'n digwydd.

Gwasanaethau Cymorth Trais Rhywiol

- Canolfan Gymorth Trais Canolbarth Cymru 01970 610124
Gwefan: midwalesrsc.org.uk
- Llinell Gymorth Genedlaethol Trais a Cham-drin Rhywiol 0808 802 9999

Trais ar sail Anrhydedd

- <https://karmanirvana.org.uk/> - Yn cefnogi dioddefwyr cam-drin ar sail anrhydedd neu briodas dan orfod.
Yn darparu amrywiaeth o addysg er mwyn deall ac ymdrin â thrais ar sail anrhydedd trwy gyfrwng rhaglenni hyfforddi wedi'u hachredu, seminarau, cynadleddau a gweithdai
Llinell Gymorth Genedlaethol 0800 5999247

Stelcio

- Llinell Gymorth Genedlaethol Stelcio 08088020300
- Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh - <https://www.suzylamplugh.org/>
Yn ymgyrchu i sicrhau gwell mesurau gwarchod a diogelu ar gyfer dioddefwyr stelcio a'r rhai sy'n gweithio ar eu pen eu hunain.

I'r rhai sydd ar Visa

- <https://www.gov.uk/government/publications/victims-of-domestic-violence>

Mae canllawiau ar gael ar wefan UKVI i staff ar fisa dibynnydd sy'n dioddef cam-drin domestig ar hyn o bryd neu wedi'i brofi yn y gorffennol

Ymgyrchoedd Diweddar

[#You are not alone](#) - - ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a lanswyd gan yr Ysgrifennydd Cartref ar 11 Ebrill 2020 i dynnu sylw at y ffaith fod gwasanaethau cymorth a chefnogaeth yn dal i fod ar gael i'r rheini sydd mewn perygl.

[#Listening from home](#) - - ymgyrch newydd i annog aelodau o'r teulu, ffrindiau, cyd-weithwyr a chymdogion i fod yn ymwybodol o arwyddion cam-drin domestig ac i roi gwybod amdanynt tra bod y Deyrnas Unedig dan gyfyngiadau symud.

Ap ffôn symudol ar gael i'w lawrlwytho - <https://www.hestia.org/brightsky> - yn galluogi defnyddwyr i ganfod eu gwasanaethau cymorth agosaf trwy chwilio yn ôl eu hardal, cod post neu leoliad ar y pryd

MEWN ARGYFWNG DYLECH BOB AMSER FFONIO 999

Atodiad 3 - Y cyd-destun cyfreithiol a chanllawiau rheoleiddiol perthnasol eraill

Yn ôl Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr yn 2018, roedd 7.9% o fenywod a 4.2% o ddynion wedi cael profiad o gam-drin domestig yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigurau hyn yn gyson â'r rhai a adroddwyd yn 2017.

Mae'n rhesymol tybio felly y bydd cyfran o'n gweithlu yn cael profiad o gam-drin domestig, boed fel dioddefwr neu gyflawnwr, yn ystod eu cyflogaeth â'r Brifysgol.

Mae'n bwysig felly bod pob aelod o staff yn deall y cyd-destun cyfreithiol yr ydym yn gweithredu ynddo.

Deddfwriaeth

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1992)
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru (2011)
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Mae'r Ddeddf yn annog darparwyr i sicrhau eu bod yn ystyried presenoldeb plant ac oedolion agored i niwed ar y campws

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cyfrannu at wella llesiant cymdeithasol yng Nghymru, at Gymru sy'n fwy cyfartal ac yn iachach, ac at Gymru o gymunedau cydlynus. Mae ein hagwedd at fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei llywio gan y pum dull o weithio.

Dogfennau allweddol eraill

- Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-21

- Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Fframwaith Darparu Trawslywodraethol 2018-2021

- Canllawiau Llywodraeth y DU - [Domestic Abuse: get help during the coronavirus \(COVID-19\) outbreak](#)

- Yn ôl llythyr cylch gwaith HEFCW ar gyfer 2019-20, yn dilyn cyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), byddent yn hoffi i'r Cyngor weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a chyhoeddi canllawiau i'r sector ar sut y gall sefydliadau yng Nghymru gyfrannu at gyflawni diben y Ddeddf.
- Cyhoeddodd Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru - rheoleiddiwr cydraddoldeb ac amrywiaeth Llywodraeth Cymru - 'A yw Cymru'n Decach?' yn 2018. Ymhlith y canfyddiadau mae'r heriau i ddiogelwch menywod ac i ddatblygiad gyrfa.
- Mae Cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru (2019) yn cydnabod y gall fod angen cymorth ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel rhai sydd wedi goroesi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Canllawiau HEFCW - Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn addysg uwch
- Universities UK – Beginning the Conversation - Responding to domestic violence and abuse in Higher Education communities during Covid-19 pandemic

Atodiad 4 - Cyngor i Reolwyr - 10 cam ymarferol

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu wedi mynd ati ar y cyd i ddatblygu rhestr o ddeg cam gweithredu i helpu i reoli cam-drin domestig yn y gweithle. Mae'r camau gweithredu yn amlygu sut y gall rheolwyr adnabod y broblem, ymateb iddi, rhoi cefnogaeth a chyfeirio unigolion at asiantaethau cymorth addas.

Adnabod y broblem

1. Chwilio am newidiadau disymwth mewn ymddygiad ac/neu newidiadau yn ansawdd y perfformiad yn y gwaith heb esboniad, er gwaethaf record gref cyn hynny.
2. Chwilio am newidiadau yn y modd y mae aelod o staff yn gwisgo, megis gormod o ddillad ar ddiwrnod poeth, newidiadau o ran faint o golur a wisgir.

Ymateb

3. Credu aelod o staff os ydynt yn datgelu eu bod yn dioddef cam-drin domestig - peidiwch â gofyn am brawf.
4. Tawelu meddwl yr aelod o staff ynghylch y ffaith bod y Brifysgol yn deall sut y gall cam-drin domestig effeithio ar eu perfformiad yn y gwaith, a'r gefnogaeth y gellir ei chynnig.

Darparu cymorth, gall hyn gynnwys:-

5. Ailgyfeirio galwadau ffôn a negeseuon e-bost am gyfnod, a newid rhifau ffôn os yw aelod o staff yn cael galwadau sy'n aflonyddu arnynt.
6. Dod i gytundeb â'r aelod o staff ynghylch yr hyn i'w ddweud wrth gyd-weithwyr a sut y dylent ymateb os yw eu cyn-bartner/partner yn ffonio neu'n ymweld â'r gweithle.
7. Sicrhau nad yw'r aelod o staff yn gweithio ar ei ben ei hun neu mewn man diarffordd, a gwirio bod gan yr aelod o staff drefniadau ar gyfer teithio'n ddiogel rhwng y cartref a'r gwaith/y gwaith a'r cartref.
8. Cadw cofnod o unrhyw achosion o gam-drin yn y gweithle, gan gynnwys galwadau ffôn, negeseuon e-bost neu ymweliadau â'r gweithle sy'n digwydd yn barhaus.
9. Trefnu i bosteri llinell gymorth cam-drin domestig gael eu harddangos ar gefn drysau toiledau.

Cyfeirio at y cymorth priodol

10. Bod â rhestr o'r gwasanaethau cymorth a gynigir yn eich ardal sydd ar gael yn rhwydd, a chyfeirio aelodau o staff at fudiadau addas sy'n ymdrin â cham-drin domestig.
11. Ceir rhestr o asiantaethau cymorth lleol a chenedlaethol yn Atodiad 2.

Atodiad 5 – Hyfforddiant Ymyrraeth Gwylidydd

Mae'r Brifysgol wedi gweithio gyda Chymorth i Fenywod Cymru er mwyn darparu hyfforddiant ymyrraeth gwylidydd i nifer o'n staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda myfyrwyr mewn swyddi bugeiliol neu academiaidd, neu mewn swyddi rheoli staff. Amlinellir amcanion dysgu'r cwrs isod:-

Amcanion Dysgu:

- Deall y cysyniad o Ymyrraeth Gwylidydd;
- Gallu adnabod trais a chamdriniaeth yn well;
- Datblygu'r sgiliau a'r hyder i ymyrryd yn ddiogel pan fyddwch yn dyst i ymddygiad amhriodol;
- Deall mwy am y cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd wedi goroesi camdriniaeth a thrais.

Bu i'r aelodau canlynol o staff gwblhau'r hyfforddiant ymyrraeth gwylidydd yn 2020 a gellir cysylltu â hwy yn ystod oriau swyddfa i gael cymorth yn gyfrinachol. Gallant hefyd eich cyfeirio ymlaen at ragor o gymorth:-

Staff Academiaidd			
Megan Talbot	Darlithydd Cyswllt	met32@aber.ac.uk	Adran y Gyfraith a Throsedddeg
Laura Stephenson	Darlithydd	las39@aber.ac.uk	Yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
Catherine O'Hanlon	Darlithydd	cao15@aber.ac.uk	Seicoleg
Heather McCreadie	Darlithydd	hem18@aber.ac.uk	Ffiseg
Margaret Ames	Uwchddarlithydd	mma@aber.ac.uk	Yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
Roberta Sartoni	Darlithydd	rrs@aber.ac.uk	Yr Adran Ieithoedd Modern
Gwasanaethau Proffesiynol			
Heather Hinkin	Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol	heh@aber.ac.uk	Adnoddau Dynol
Adrian Harvey	Rheolwr Cyfadran, Gwyddorau Daear a Bywyd	avh@aber.ac.uk	Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd
Jonathan Davies	Rheolwr Preswylfeydd	jhd11@aber.ac.uk	Ystadau
John Harrington	Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr a Gyrfaedd	oih@aber.ac.uk	Y Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr a Gyrfaedd
Rebecca Pyne	Gweinyddwr	rep17@aber.ac.uk	Y Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr a Gyrfaedd
Lucie Gwilt	Rheolwr Chwaraeon Undeb y Myfyrwyr	leg13@aber.ac.uk	Staff Undeb y Myfyrwyr
Lorraine Spencer	Cynghorydd Datblygu Go Wales	lms9@aber.ac.uk	Y Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr a Gyrfaedd
Judith Shepherd	Dirprwy Gofrestrydd	jqr@aber.ac.uk	Y Gofrestrfa Academiaidd
Elizabeth Kensler	Rheolwr Gwasanaethau i Gwsmeriaid	eak@aber.ac.uk	Gwasanaethau Gwybodaeth